Archwilio Cymru
Audit Wales

Trefniadau Gwrth-dwyll

Cyngor Abertawe

Ebrill 2026

Amdanom ni

Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn o dan y dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych chi'n ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd lle bo'r hawlfraint yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os oes angen unrhyw help arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith yr ydych chi'n ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

Cynnwys

Cipolwg ar yr archwiliad		4
Ein canfyddiadau		7
Argymhellion		12
Atodiadau		14
1	Ynglŷn â'n gwaith	15

Cipolwg archwilio

Yr hyn y gwnaethom ei ystyried

1 Yn 2020 gwnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru 15 o argymhellion yn ei adroddiad, Gwella Ein Perfformiad: Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, i wella'r ffordd y mae sector cyhoeddus Cymru yn mynd i'r afael â thwyll. Yn yr archwiliad presennol hwn, gwnaethom fwrw golwg ar drefniadau Cyngor Abertawe (y Cyngor) i atal a chanfod twyll, gan ystyried yr argymhellion blaenorol hynny. Edrychodd yr archwiliad ar y canlynol:

- arweinyddiaeth a diwylliant;
- rheoli a rheoli risg;
- polisïau a hyfforddiant;
- gallu ac arbenigedd;
- offer a data;
- cydweithredu; a
- llywodraethu.

Pam mae hyn yn bwysig

2 Mae'r risg o dwyll yn fygythiad cynyddol gyffredin i bron pob rhan o fywyd bob dydd. Mae risg o dwyll yn gyffredin ar draws pob agwedd ar y sector cyhoeddus. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn ei hadroddiad yn 2024 Overview of the impact of fraud and error on public funds, yn tynnu sylw at amcangyfrif Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus (PSFA) bod twyll a gwallau wedi costio rhwng £55 biliwn ac £81 biliwn i drethdalwr y DU yn 2023-24. Mae hyn yn awgrymu y gallai colledion trwy dwyll fod yn sylweddol i bob cyngor.

3 Mae trefniadau gwrth-dwyll cryf yn helpu'r Cyngor i ddiogelu ei gronfeydd a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd o ran sut y mae'n reoli adnoddau. Mae hefyd yn helpu i ddangos bod y Cyngor yn atebol ac y gellir ymddiried ynddo.

Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

4 Mae'r Cyngor yn glir ar ei ddull gweithredu dim goddefgarwch o ran twyll, ac ar gyfrifoldebau swyddogion i lywio a chyflawni gweithgareddau gwrth-dwyll. Fodd bynnag, mae bylchau yn y trefniadau presennol. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg asesiad risg o dwyll cynhwysfawr a chynllun cyflawni gwrth-dwyll. Mae yna hefyd gyfleoedd i'r Cyngor gryfhau ymhellach ei wiriadau cyn cyflogi, rhannu cuddwybodaeth a sut mae twyll a ganfyddir yn cael cyhoeddusrwydd i atal eraill. Yn gadarnhaol, gwelsom gefnogaeth gorfforaethol glir ar gyfer mynd i'r afael â thwyll. Bydd y diwylliant hwn yn bwysig wrth ddatblygu'r gwelliannau sydd eu hangen ar drefniadau'r Cyngor.

Yr hyn yr ydym yn ei argymell

5 Rydym wedi gwneud naw argymhelliad ar gyfer gwella. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

- cryfhau proses y Cyngor ar gyfer datblygu ei Asesiad Risg o Dwyll;
- sicrhau bod arbenigwyr gwrth-dwyll yn cael eu cynnwys pan fydd y Cyngor yn cyflwyno polisïau newydd neu'n newid systemau;
- adolygu a diweddaru ei Strategaeth Gwrth-dwyll;
- cryfhau'r trefniadau presennol trwy ddatblygu cynllun ymateb i dwyll ffurfiol;
- adolygu hyfforddiant ar gyfer staff a chynghorwyr i sicrhau eu bod yn cael gwybod am drefniadau gwrth-dwyll y Cyngor;
- ffurfioli dull gweithredu'r Cyngor o roi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll sydd wedi'u profi;
- adolygu trefniadau ar gyfer gwiriadau cyn cyflogi i sicrhau ei hun bod ystyriaeth ddigonol a chymesur o wrth-dwyll yn ei broses recriwtio;

- ymestyn ei Gynllun Gwrth-dwyll i gynnwys gwaith ataliol sy'n ymateb i'r risgiau yn ei Asesiad Risg o Dwyll; a
- ffurfioli trefniadau presennol i ddysgu o ddigwyddiadau twyll.

Ein canfyddiadau

Arweinyddiaeth a diwylliant

6 Mae'r Cyngor wedi gwneud datganiad clir nad yw'n goddef twyll. Mae'r safbwynt hwn wedi'i amlinellu yn ei Strategaeth Gwrth-dwyll ac fe'i cefnogir gan y Cabinet a'r uwch swyddogion. Mae'r Cyngor yn hyrwyddo pwysigrwydd gwrth-dwyll i staff trwy ei fewnrwyd ac wrth gyfathrebu'n gyson ag aelodau o staff. Fodd bynnag, mae yna gyfleoedd i gryfhau trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor. Bydd arweinyddiaeth uwch swyddogion a chefnogaeth gorfforaethol ar gyfer gwrth-dwyll yn bwysig wrth ddatblygu'r gwelliannau sydd eu hangen ar drefniadau'r Cyngor.

Fframwaith rheoli a rheoli risg

7 Gwnaethom ganfod cyfleoedd i gryfhau asesiad risg o dwyll y Cyngor. Bob blwyddyn mae'r rheolwr y Tîm Twyll Corfforaethol yn cwblhau'r Asesiad Risg o Dwyll ar y cyd â'r Ymchwilwyr Twyll Corfforaethol. Mae hyn yn cael ei adolygu gan y Prif Archwilydd Mewnol a'r Tîm Rheoli Corfforaethol cyn i'r Rhestr Wirio Asesu Risg o Dwyll gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (GAC). Mae hyn yn canolbwyntio ar drefniadau corfforaethol fel prosesau adrodd ac ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw rheolwyr meysydd gwasanaeth yn cymryd rhan yn y broses hon. Gallai hyn gyfyngu ar ba mor gynhwysfawr y mae risg o dwyll yn cael ei asesu ledled y sefydliad.

8 Er bod Tîm Twyll Corfforaethol y Cyngor yn arwain ar waith gwrth-dwyll, nid oes unrhyw drefniant i sicrhau bod y Tîm Twyll Corfforaethol bob amser yn cael ei ddefnyddio i asesu prosiectau a pholisïau newydd ar gyfer risgiau twyll posibl. Heb drefniadau ffurfiol i sicrhau cynnwys arbenigwyr gwrth-dwyll, efallai na fydd risg gwendidau twyll mewn prosiectau a pholisïau newydd yn cael eu hystyried na'u nodi'n llawn.

Polisïau a hyfforddiant

9 Mae Polisi Gwrth-dwyll a Llygredigaeth y Cyngor yn nodi ei safiad dim goddefgarwch a'i ymateb arfaethedig i dwyll. Mae'r Polisi, a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2016, yn cael ei gefnogi gan Gynllun Gwrth-Dwyll blynyddol. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn adolygu ac yn diweddaru ei bolisïau i sicrhau eu bod yn berthnasol, yn briodol ac yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol a'r risgiau twyll presennol.

10 Nid oes gan y Cyngor Gynllun Ymateb i Dwyll neu gyfwerth sydd wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol, sy'n gosod yn glir ei drefniadau i nodi, ymateb i, a rheoli risgiau twyll. Mae'n bwysig i'r Cyngor nodi'n ffurfiol sut mae'n bwriadu ymateb i honiadau o dwyll ac i roi sicrwydd yn ei adroddiadau ei fod wedi cydymffurfio â'i broses ymchwilio.

11 Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant gwrth-dwyll ond nid yw ei ddull presennol yn effeithiol. Nid yw'r hyfforddiant yn orfodol ac mae'r gyfranogaeth yn isel iawn – ar adeg ein hadolygiad, dim ond 24 aelod o staff oedd wedi cwblhau'r modiwl hyfforddiant. Mae'n bwysig bod staff a chynghorwyr yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd ar drefniadau gwrth-dwyll y Cyngor i helpu i sicrhau ymwybyddiaeth o sut i adnabod amheuon o dwyll ac adrodd arnynt.

12 Mae'r Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll sydd wedi'u canfod ac sy'n arwain at euogfarn droseddol. Mae'r Cyngor hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i rai achosion o dwyll sydd wedi'u canfod nad ydynt wedi arwain at erlyniad troseddol, ond eu bod er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor broses gytunedig i benderfynu pa achosion i'w cyhoeddi. Gall diffyg dull cytunedig, ynghyd â thawedogrwydd dealladwy uwch swyddogion i gyhoeddi manylion rhai achosion o dwyll, gyfyngu ar ymwybyddiaeth y cyhoedd o lwyddiant y Cyngor wrth ganfod twyll a chamau i'w atal yn y dyfodol.

13 Nid yw'r Cyngor yn canolbwyntio'n ddigonol ar wrth-dwyll yn ei drefniadau ar gyfer gwiriadau cyn cyflogi. Cyn caniatáu i weithwyr newydd ddechrau gwaith, mae'r Cyngor yn cwblhau cyfres o wiriadau cyn cyflogi. Mae'r rhain wedi'u nodi yn ei Bolisi Recriwtio Diogel. Nid yw'r Cyngor wedi gwerthuso pob rôl o fewn y sefydliad i nodi'r rhai sydd â mwy o risg o dwyll. Gallai ymestyn ei drefniadau ar gyfer gwiriadau cyn cyflogi gryfhau trefniadau gwrth-dwyll ataliol y Cyngor ymhellach.

Capasiti ac arbenigedd

14 Mae trefniadau ac adnoddau gwrth-dwyll y Cyngor wedi'u nodi'n glir. Mae ei Gynllun Gwrth-dwyll blynyddol yn cael ei gymeradwyo gan i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Cyngor. Mae'r Cynllun yn rhoi manylion y gwaith ymchwilio sy'n cael ei drefnu bob blwyddyn ac yn mesur yr adnoddau sydd ar gael i gyflawni gwaith ymchwilio twyll disgwyliedig.

15 Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi'n glir gyfrifoldebau am ei weithgareddau gwrth-dwyll. Mae'r cyfrifoldeb am wrth-dwyll yn cael ei bennu i Bennaeth Cyllid ac Archwilio Mewnol y Cyngor, gyda chefnogaeth tîm o swyddogion gwrth-dwyll cymwys a phrofiadol. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio gwasanaethau darparwyr arbenigol allanol.

16 Ar y cyfan, fodd bynnag, gwelsom fod ymdrechion y Cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar ymchwiliadau adweithiol. Mae ganddo ffocws cyfyngedig ar atal twyll yn rhagweithiol. Er enghraifft, nid yw ei Gynllun Gwrth-dwyll yn cynnwys darpariaeth o ran gwaith gwrth-dwyll rhagweithiol neu ataliol wedi'i gynllunio nac yn nodi adnoddau ar ei gyfer. Nid oes cysylltiad clir rhwng risgiau twyll sydd wedi'u nodi yn yr Asesiad Risg o Dwyll a chamau lliniaru yn y Cynllun Gwrth-dwyll. Heb gynllun penodol ar gyfer gwaith ataliol sy'n nodi manylion yr adnoddau angenrheidiol a'r amserlen gyflawni, ni ellir sicrhau y bydd gwaith ataliol gwrth-dwyll yn cael ei gyflawni.

17 Gwelsom enghreifftiau o'r Cyngor yn dysgu gwersi o weithgarwch twyll. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn digwydd. Heb ddull cyson o werthuso achosion o dwyll, gall y Cyngor golli cyfleoedd i wella trwy nodi a rhannu dysgu.

Adnoddau, data a chydweithredu

18 Mae'r Cyngor yn mabwysiadu dull cydweithredol sy'n cael ei ysgogi gan ddata i fynd i'r afael â thwyll, gan weithio gyda phartneriaid allanol. Mae ganddo gytundebau rhannu data ffurfiol, megis gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Mae'r Cyngor hefyd yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid allanol eraill, gan gynnwys Heddlu De Cymru, y Rhwydwaith Gwrth-Dwyll Cenedlaethol, a grŵp Prif Archwilwyr Mewnol Cymru.

19 Mae'r Cyngor yn defnyddio adnoddau paru data ac yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) i ganfod twyll a gwallau. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer paru data ledled y DU sy'n cael ei chynnal gan Swyddfa'r Cabinet ac sy'n coladu gwybodaeth gan gynghorau a chyrff cyhoeddus eraill i nodi anghysondebau a allai fod yn arwydd o dwyll. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn bwysig oherwydd gall helpu'r Cyngor i adennill ac atal colledion trwy nodi hawliadau a thaliadau twyllodrus. Mae'r gwaith hwn yn diogelu arian cyhoeddus, yn cryfhau ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus ac yn helpu i sicrhau tegwch ledled y sector cyhoeddus.

Llywodraethu

20 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yn cynnal goruchwyliaeth o weithgarwch gwrth-dwyll y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael gwybod am weithgarwch gwrth-dwyll y Cyngor trwy adrodd yn rheolaidd iddynt. Mae hefyd yn cyfrannu at ddatblygu Cynllun Gwrth-dwyll blynyddol y Cyngor. Mae'r trefniadau adrodd yn cynnwys diweddariadau ddwywaith y flwyddyn i i'r Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gynnydd yn erbyn camau gweithredu a thargedau y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Gwrth-dwyll. Mae adolygiad o'r Cynllun Gwrth-dwyll hefyd yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu gweithgarwch a herio swyddogion ar waith gwrth-dwyll y Cyngor.

21 Fodd bynnag, mae diffyg asesiad risg o dwyll cynhwysfawr a chynllun ar gyfer gwaith ataliol sy'n ymateb i risgiau twyll adnabyddedig yn cyfyngu ar y sicrwydd sydd gan y Pwyllgor Llywodraethu fod trefniadau'r Cyngor yn gwbl effeithiol. Bydd ei oruchwyliaeth yn bwysig wrth i'r Cyngor fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd yn yr adroddiad hwn i gryfhau ei drefniadau gwrth-dwyll.

Argymhellion

A1 Dylai'r Cyngor gryfhau'r broses ar gyfer datblygu ei Asesiad Risg o Dwyll, gan ymgysylltu'n uniongyrchol â meysydd gwasanaeth sydd wedi'u cefnogi gan swyddogion sydd ag arbenigedd mewn trefniadau gwrth-dwyll (**paragraff 7**).

A2 Dylai'r Cyngor gryfhau'r trefniadau presennol i sicrhau bod staff gwrth-dwyll yn cael eu cynnwys pan fydd y Cyngor yn cyflwyno neu'n newid polisïau a systemau, er mwyn sicrhau ei fod yn asesu ac yn ymdrin â risg o dwyll (**paragraff 8**).

A3 Dylai'r Cyngor adolygu a diweddaru ei Strategaeth Gwrth-dwyll i sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn berthnasol, gan gyfathrebu hyn i swyddogion a chynghorwyr (**paragraff 9**).

A4 Dylai'r Cyngor gryfhau'r trefniadau presennol drwy ddatblygu Cynllun Ymateb i Dwyll ffurfiol, a monitro'r broses o'i gyflawni i sicrhau cydymffurfiaeth (**paragraff 10**).

A5 Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei ddarpariaeth hyfforddi ar gyfer staff a chynghorwyr yn caniatáu iddynt wybod am drefniadau gwrth-dwyll y Cyngor, fod yn wyliadwrus o'r risgiau a deall eu cyfrifoldebau (**paragraff 11**).

A6 Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau presennol i fanteisio i'r eithaf ar atal twyll drwy nodi'n glir dull y Cyngor o roi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll sydd wedi'i brofi (**paragraff 12**).

A7 Dylai'r Cyngor adolygu ei drefniadau ar gyfer gwiriadau cyn cyflogi i sicrhau ei hun bod ystyriaeth ddigonol a chymesur o wrth-dwyll yn ei broses recriwtio (**paragraff 13**).

A8 Dylai'r Cyngor ymestyn ei Gynllun Gwrth-Dwyll blynyddol i gynnwys gwaith ataliol sy'n gosod blaenoriaethau, cyfrifoldebau, amserlenni, ac adnoddau sydd eu hangen arno i ymateb i'r risgiau yn ei Asesiad Risg o Dwyll (**paragraff 16**).

A9 Dylai'r Cyngor ffurfioli ei drefniadau i ddysgu o ddigwyddiadau twyll i sicrhau ei fod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella (**paragraff 17**).

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom archwilio trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys archwilio polisïau, gweithdrefnau ac arferion gweithredol. Cynhaliwyd y gwaith maes yn ystod mis Hydref 2025.

Cwestiynau a meini prawf yr archwiliad

Cwestiynau

Roedd y cwestiynau yn ymdrin â meysydd allweddol gan gynnwys:

- arweinyddiaeth a diwylliant:
- fframwaith rheoli a rheoli risg;
- polisïau a hyfforddiant;
- capasiti ac arbenigedd;
- adnoddau a data;
- cydweithredu, a
- llywodraethu

Meini Prawf

Fe wnaethom seilio ein hasesiad ar safonau cydnabyddedig a chanllawiau statudol, gan gynnwys:

- argymhellion yn adroddiad 'Gwella ein Perfformiad' Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, Gorffennaf 2020 fel sail ar gyfer trefniadau gwrth-dwyll priodol;
- adolygiadau lleol blaenorol Archwilio Cymru o drefniadau gwrth-dwyll; a
- myfyrio ar yr egwyddorion yn adroddiad Trefniadau Gwrth-dwyll yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru Archwilio Cymru, yn enwedig elfennau allweddol diwylliant gwrth-dwyll effeithiol.

Dulliau

Fe wnaethom ddefnyddio dau ddull i gasglu tystiolaeth:

- **Adolygiad o ddogfennau** – Fe wnaethom archwilio dogfennau mewnol, gan gynnwys strategaeth a phrotocol y Cyngor ar wrth-dwyll, polisïau, canllawiau, adroddiadau perfformiad, a dogfennaeth Archwilio Mewnol. Fe wnaeth y rhain ein helpu i ddeall trefniadau llywodraethu'r Cyngor, ei weithrediadau a'i gydymffurfiaeth.
- **Cyfweliadau** – Fe wnaethom gynnal cyfweliadau strwythuredig gyda staff sy'n ymwneud â goruchwylio a rheoli trefniadau gwrth-dwyll gan gynnwys uwch swyddogion. Fe wnaeth y trafodaethau hyn wedi ein helpu i ddeall sut mae polisïau a gweithdrefnau'n gweithio'n ymarferol.

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd adnoddau y sefydliadau hyn ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English